**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser: Cyfarfod cyffredinol blynyddol a sesiwn ar raglen Sgrinio'r Ysgyfaint**

**Y prif fanylion**

**Pryd:** 13.00-14.00pm, dydd Iau 12 Hydref 2023

**Ble**: MS Teams

**Diben y sesiwn:** Cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol a chael gwybodaeth gan arbenigwyr am archwiliadau iechyd yr ysgyfaint.

**Pwnc**

Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar sgrinio'r ysgyfaint er mwyn medru cael diagnosis o ganser yn gynharach. Ymunodd yr Athro Phil Crosbie o Brifysgol Manceinion a Dr Sinan Eccles, arweinydd cynllun peilot Archwiliad Iechyd yr Ysgyfaint yng Nghymru, â'r sesiwn i drafod pam mae'r adnodd diagnostig newydd hwn mor bwysig a sut mae'r gwaith o'i gyflwyno yng Nghymru yn mynd rhagddo.

**Agenda**

Croeso gan y Cadeirydd / Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (1:00-1:10pm)

Cyflwyniad gan yr Athro Phillip Crosbie: (1:10-1:30pm)

Cyflwyniad gan Dr Sinan Eccles (1:25-1:45pm)

Sesiwn holi ac ateb (1.45pm-2.00pm)

**Yn bresennol:**

Megan Cole
Simon Scheeres
Sinan Eccles (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Meddygaeth Anadlol)
Rees, David (Aelod o'r Senedd)
Benedict Lejac
Hilary Webb
Thomas, Owen (Staff Cymorth Aelod)
Tessa Marshall
Hannah Wright
Hearne, Emily (Staff Cymorth Aelod)
Hussain, Altaf (Swyddfa Altaf Hussain)
Joseph Carter
Tomos Evans
Becky Mudd
Bettridge, Andrew (Staff Cymorth Aelod)
Madelaine Phillips
Sikha de Souza (Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rhif 2, Cwr y Ddinas)
Ben Coates

Orla Thomas (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Iechyd a Lles – Tîm Rheoli Busnes)
Davies, Henry (Staff Cymorth Aelod)
Judi Rhys
Ceri Hogg (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Oncoleg Pediatrig)
Brennan, Shane (Staff Cymorth Aelod)
Greg Pycroft
Pamela Smith
Kaleigh Cymorth Canser MT
Eirlys (Gwestai)
Eleanor Jones
Suzanne Cass
Ryland Doyle
Heather Lewis (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Parc Magden)
Menai Owen-Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro)
Hannah Buckingham
Griffiths, John (Aelod o'r Senedd)
Thomas Brayford
Jacob Sinkins
Dr Peter Henley
Vickie Blake - Old Mill Cancer Foundation
Lowri Griffiths
Dawn Casey (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gofal Cleifion a Diogelwch )
Sian Morgan2 (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - AWMGS)
Chris Emmerson (Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rhif 2, Cwr y Ddinas)
Isherwood, Mark (Aelod o’r Senedd | Member of the Senedd)
Tom Crosby (Felindre – Meddyg Ymgynghorol)
Louise Carrington (Gweithrediaeth y GIG)
Andrew Seggie

Sharon Hillier (Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rhif 2, Cwr y Ddinas)

**Nodiadau’r cyfarfod**

Croesawodd David Rees aelodau’r Grŵp Trawsbleidiol i’r sesiwn a chyflwynodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gofynnodd Megan Cole am enwebiadau ar gyfer rôl y Cadeirydd.

Altaf Hussain – enwebodd David Rees i’r Gadair.

Penodwyd David Rees yn Gadeirydd

Enwebodd David Rees Megan Cole, Ymchwil Canser y DU, yn ysgrifennydd.

Altaf Hussain – eiliodd yr enwebiad.

- Cyflwynodd David Rees brif ran y sesiwn, sef canser yr ysgyfaint a’r rhaglen sgrinio.
- Cyflwynodd David Rees y siaradwr cyntaf, sef yr Athro Phil Crosbie.

***Cyflwyniad gan Phil Crosbie***

Dechreuodd Phil drwy amlinellu'r sefyllfa o ran canser yr ysgyfaint yn y DU, gan gynnwys nifer yr achosion, marwolaethau a'i statws fel canser ag anghenion heb eu diwallu. Aeth Phil ati hefyd i archwilio'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chanser yr ysgyfaint o gofio mai'r rhai o'r cwintelau mwyaf difreintiedig sy'n dioddef ohono amlaf. Felly, drwy gyflwyno rhaglen sgrinio, bydd yn haws i unigolion o'r grwpiau mwyaf difreintiedig gael diagnosis yn gynharach, pan fydd mwy o opsiynau ymarferol i'w trin. Aeth rhagddo i ddweud mai ysmygu sy'n bennaf cyfrifol am ganser yr ysgyfaint a soniodd am y cysylltiad rhwng amddifadedd ac ysmygu.

Yna, dangosodd graffigyn yn dangos y ganran sy'n cael diagnosis o ganser cyn cyflwyno rhaglen sgrinio, a dywedodd bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael diagnosis pan fo'r canser wedi datblygu cryn dipyn. Yna, dangosodd graffigyn yn dilyn rhaglen sgrinio ym Manceinion a oedd yn dangos mwy o gleifion yn cael diagnosis o ganser pan oedd wedi cyrraedd cam 1 a 2.

Rhoddodd fraslun o waith ei dîm ym Manceinion a'r modd roedd eu cynllun peilot wedi'i gwella'r broses o roi diagnosis ac yn amlygu'r angen i gyflwyno rhaglen sgrinio.

Yna trafododd Phil effaith COVID-19 ar waith y cynllun peilot a'r oedi dilynol.

Aeth Phil rhagddo i drafod effaith argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i gyflwyno rhaglen sgrinio'r ysgyfaint yn llawn ym mhob un o bedair gwlad y DU.

Trafododd sut roedd Lloegr wedi ymrwymo'n ddiweddar i gyflwyno rhaglen o'r fath, ond nad oedd y cenhedloedd datganoledig wedi gwneud hynny eto.

- Diolchodd David Rees i Phil am ei gyflwyniad gan ddweud ei bod yn bwysig i Gymru ddilyn yn ôl troed Lloegr. Pwysleisiodd ein bod yn dysgu llawer o waith Phil.
- Yna cyflwynodd Dr Sinan Eccles a fyddai'n rhoi cyflwyniad am ei waith a'i gynllun peilot mewn perthynas â sgrinio'r ysgyfaint yng Nghymru.

Dechreuodd Sinan drwy ddiolch i Phil a'r tîm ym Manceinion am arwain y ffordd ac am yr holl wybodaeth a'r ddealltwriaeth roedd eu cynllun peilot wedi'i gynnig i'r tîm yng Nghymru.

Yna cyflwynodd Sinan ystadegau ar gyfer Cymru yn benodol yn dangos nifer yr achosion o ganser yr ysgyfaint a chyfraddau marwolaethau yng Nghymru, cyn tynnu sylw at lefelau amddifadedd yng Nghymru ac effaith ysmygu ar gyfraddau canser yr ysgyfaint yn y cymunedau hyn. Drwy geisio lleihau canser yr ysgyfaint, meddai, roedd rhywun yn lleihau anghydraddoldeb canser yn gyffredinol, gan fod cysylltiad cynhenid rhwng y ddau.

Yna soniodd Sinan am y rhaglenni sgrinio eraill yng Nghymru, a'r gwasanaethau sgrinio'r fron, y coluddyn a'r rhaglen sgrinio serfigol. Trafododd sut y byddai gwasanaeth sgrinio'r ysgyfaint yn cyd-fynd â'r rhain a'r prosesau y byddai angen eu datblygu yng Nghymru i sicrhau y byddai rhaglen o'r fath yn cael ei chyflwyno'n llawn.

Yna amlinellodd ei waith yn datblygu cynllun peilot yng Nghymru. Gan nad oedd dim arian ar gael gan y sector cyhoeddus, gofynnodd Sinan am gyllid gan wahanol sefydliadau yn y trydydd sector ac roedd hyn wedi caniatáu iddo fwrw ymlaen â'r cynllun. Yna bu'n trafod y tri nod ar gyfer y peilot, gan gynnwys bod o fudd i unigolion, dysgu o ganfyddiadau a cheisio dileu'r risgiau wrth gyflwyno'r rhaglen yn y dyfodol. Trafododd Sinan sut y dechreuodd y cynllun peilot yng Nghymru ym mis Medi 2023. Roedd cyllid ar gael i roi sgan i 500 o bobl yr ystyrir bod risg uwch iddynt ddatblygu canser yr ysgyfaint.

Yna trafododd gyd-destun gwleidyddol y gwaith, gyda chyfyngiadau cyllidebol Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'i hymrwymiad yn ddiweddar i gyflwyno cynllun sgrinio'r ysgyfaint yng Nghynllun Gwella Canser Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr eleni.

Wrth gloi, rhoddodd fraslun o lwyddiant y rhaglen sgrinio yn Lloegr a sut mai hwn fyddai'r datblygiad unigol mwyaf o ran achub bywydau a chael diagnosis cynnar o ganser yr ysgyfaint yng Nghymru.

- Diolchodd David Rees i Sinan am ei gyflwyniad a symudodd i'r sesiwn holi ac ateb.

**Sesiwn holi ac ateb**

- **Dechreuodd David Ress AS y sesiwn drwy ofyn i'r siaradwyr a oes digon o ddata i ddod o hyd i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf o fewn y system?**
- Atebodd Phil drwy dynnu sylw at y broses bresennol yn Lloegr: cysylltir â chleifion ar sail y cofnodion presennol yn y system gofal sylfaenol i sôn wrthynt am sgrinio. Soniodd Phil hefyd am bwysigrwydd holi cleifion am eu harferion ysmygu yn ystod ymgynghoriadau dros y ffôn i weld a oes angen eu sgrinio.
- Roedd y ffaith bod Lloegr wedi dechrau'r broses eisoes o fantais meddai, gan fod ei gynllun peilot yma yng Nghymru wedi gallu dewis a dethol y rhannau mwyaf llwyddiannus o'r cynlluniau yn Lloegr a chyfuno'r dull o ymgynghori â phobl dros y ffôn a defnyddio cofnodion gofal sylfaenol.

- **Gofynnodd John Griffiths AS a fyddai ysmygu goddefol yn cael ei ystyried wrth gysylltu â phobl at ddibenion sgrinio.**

- Yn ôl Sinan, ni fydd pobl yn rhan o'r cynllun peilot oni bai eu bod wedi bod yn ysmygwyr eu hunain. Yn hytrach, rhaid i unigolion fodloni 4 o 5 maen prawf cyn yr ystyrir bod angen eu sgrinio.

- Ategwyd hyn gan Phil a ddwedodd fod canser yr ysgyfaint ymhlith pobl nad ydynt yn ysmygu yn un o'r anghenion canser na chânt eu diwallu ond, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl sgrinio'r unigolion hyn oherwydd y risg sydd ynghlwm wrth y sgan CT.

- **Holodd Altaf Hussain AS am yr ystod oedran ar gyfer sgrinio. Ar hyn o bryd, yr argymhelliad yw sganio pobl 55-74 oed, a gofynnodd a fyddai'n bosibl ymestyn hyn?**

- Dywedodd Phil fod nifer yr achosion o ganser yr ysgyfaint yn cynyddu wrth i bobl fynd yn hŷn ac mae 40% o'r rhai sy'n cael diagnosis dros 74 oed. Roedd yr uchafswm oed wedi codi i 80 yn rhaglen Manceinion ac roeddent wedi cael grant yn ddiweddar i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

- Awgrymodd Sinan, ar y llaw arall, nad oedd y dystiolaeth yn dangos y byddai'n fuddiol sganio pobl dros 74 oed gan nodi bod peryglon sganiau CT yn rheswm dros beidio â gwneud hynny.

Wrth gloi'r sesiwn, diolchodd David Rees AS i'r holl siaradwyr ac i bawb arall a ddaeth i'r sesiwn.